Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

**Teitl:** **Ymgynghoriad ar y Strategaeth Tlodi Tanwydd**

**Dyddiad:** **9 Tachwedd 2009**

**Gan:** **Jane Davidson, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai**

Heddiw yr wyf wedi lansio'r ymgynghoriad ar Strategaeth Tlodi Tanwydd diwygiedig Cymru. Mae'r ymgynghoriad yn amlinellu fy mwriad gwreiddiol o fynd i'r afael â thlodi tanwydd yng Nghymru, gan gynnwys canolbwyntio'n arbennig ar wella effeithlonrwydd ynni'r cartrefi mwyaf aneffeithlon o ran ynni yng Nghymru.

Mae'r ymgynghoriad yn cynnwys adolygiad o'r Ymrwymiad Tlodi Tanwydd a gyhoeddwyd yn 2003, ac mae'n crynhoi hynt y gwaith yn unol â'n hamcanion ar gyfer tlodi tanwydd, yn ystyried y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd ac yn cynnig dull mwy diweddar o weithredu ar gyfer mynd i'r afael â thlodi tanwydd yng Nghymru.

Mae'r Cynllun Cenedlaethol Effeithlonrwydd ac Arbed Ynni a'r argymhellion a oedd yn deillio o'r Grŵp Cynghori Tlodi Tanwydd wedi cyfrannu gwybodaeth ar gyfer y ddogfen ymgynghori hon.

Mae'r ymgynghoriad yn cadarnhau ein bwriad gwreiddiol i newid y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref ynghyd ag amlinellu'r cynigion i:

- Wella lefel y cyngor a'r gefnogaeth
- Annog darpariaeth fwy cydgysylltiedig o'r gwasanaethau ynghyd â chydweithio
- Datblygu rhaglen effeithlonrwydd ynni sy'n seiliedig ar ardal
- Cefnogi camau gweithredu ar lefel gymunedol
- Helpu deiliaid tai i dalu am welliannau ynni
- Sicrhau'r incwm mwyaf posibl
- Helpu deiliaid tai i sicrhau eu bod yn cael y fargen orau o ran ynni
- Annog landlordiaid i wella effeithlonrwydd ynni eu safleoedd
- Annog awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol a'u partneriaid i fynd i'r afael â thlodi tanwydd.

Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 4 Ionawr.

Byddaf hefyd yn ystod y gaeaf yn ymgynghori ar Reoliadau'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref.